**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

7 Mehefin 2023

Annwyl Russell

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 25 Ebrill 2023 a'r llythyr at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, dyddiedig 2 Mehefin 2023 yr anfonwyd copi ohono atoch. Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i'r Pwyllgor bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023 (“y Rheoliadau HIA”). Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r mater hwn sydd ar gael yn:
gen-ld15871-w.pdf (senedd.cymru)

Gwnaed y Rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 5 Mehefin 2023.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.